YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF: 50/2023
DYDDIAD CYHOEDDI: 03/05/2023

# Gwerthusiad o'r Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau ac o Raglen y Blynyddoedd Cynnar

## Crynodeb Addysg Gynnar

1. Mae'r crynodeb hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad ar gyfer addysg gynnar yn unig. I gael y canfyddiadau ar gyfer yr holl ysgolion gweler y crynodeb cysylltiedig ar gyfer ysgolion y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a'r prif adroddiad.

2. Lansiwyd y Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau (RRRS) ym mis Awst 2020 i helpu ysgolion trwy gynyddu capasiti staff. Cafodd y capasiti ychwanegol hwn ei gynllunio er mwyn rhoi cymorth ychwanegol dros dro i ddysgwyr 3-16 oed â blaenoriaeth i'w galluogi i ailgynefino â'r system ysgolion, cyflawni'r cynnydd mae ganddynt hawl iddo, ac adfer hyder a gallu dysgu. Dosbarthwyd £59m yn 2020/21, gan gynnwys £3m ym mis Mawrth 2021 ar gyfer lleoliadau gofal plant. Erbyn mis Gorffennaf 2022 roedd £165.5m wedi cael ei ddosbarthu.

3. Er mwyn darparu cymorth pellach i ddysgwyr mewn addysg gynnar (y Cyfnod Sylfaen (3-7 oed)) trefnwyd bod grant ychwanegol o £13m ar gael a chafodd ei weinyddu trwy'r Grant Gwella Addysg ym mlwyddyn academaidd 2021/22.[1] Roedd £10m o'r cyllid hwn ar gael i ysgolion a oedd â dosbarthiadau ar gyfer Meithrin i Flwyddyn 2 a lleoliadau meithin a gyllidir ond nas cynhelir (lleoliadau gofal plant a gaiff eu cyllido, gan yr awdurdod

[1] Ers mis Medi 2022, mae'r Cyfnod Sylfaen wedi cael ei ddisodli gan y Cwricwlwm i Gymru sydd â chontinwwm o oedrannau dysgu 3-16. Defnyddir addysg gynnar i gyfeirio at addysg ar gyfer yr oedrannau 3-7 drwy'r adroddiad hwn.

lleol, i ddarparu addysg feithrin). Roedd £3m ar gael i leoliadau ehangach gofal plant, gan gynnwys gwarchodwyr plant, nad ydynt yn darparu addysg feithrin ond y disgwylir iddynt (fel yr amlinellir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol) ddeall a gweithredu egwyddorion addysgegol addysg gynnar yn eu darpariaeth.

4. Prif nod y gwerthusiad hwn yw rhoi tystiolaeth fel sail i benderfyniadau ynghylch ymateb presennol Llywodraeth Cymru wrth helpu ysgolion a lleoliadau gofal plant i oresgyn effeithiau'r tarfu a achoswyd gan COVID-19 ar ddatblygiad addysg gynnar.

**Argymhellion**

| | |
|---|---|
| a. | Parhau i ganolbwyntio ar ddiwallu angen, fel y caiff ei ddiffinio ar lefel lleoliad, ar y cyd â blaenoriaethau ar lefel genedlaethol. |
| b. | Parhau i fabwysiadu dulliau cyfannol a defnyddio hynny ag sy'n bosibl o dulliau amlasiantaethol i lwyr ddiwallu anghenion plant 3-7 oed. |
| c. | Parhau i gefnogi addysg gynnar a gofal plant y tu allan i ysgolion, gan gynnwys lleoliadau gofal plant nas cyllidir ac nas cynhelir, a fydd yn arwain at adferiad tecach. |
| d. | Parhau i ganiatáu cyflwyno hyblyg ar lefel ysgol a lleoliad er mwyn diwallu anghenion mewn ffordd effeithiol gyda'r capasiti ychwanegol sydd ar gael. |
| e. | Parhau i ddefnyddio canllawiau clir. |
| f. | Rhoi mwy o wybodaeth ymlaen llaw i leoliadau i'w galluogi i gynllunio'n fwy hirdymor. |
| g. | Pennu bod unrhyw hyfforddiant a ddarperir gan y grantiau i'w ddefnyddio ar gyfer cynyddu capasiti staff gyda dysgwyr, nid dim ond uwchsgilio'r gweithlu presennol. |
| h. | Creu cysylltiadau agosach gyda chynlluniau eraill i gynyddu niferoedd staff. Er enghraifft, rhaglenni sy'n cefnogi mynediad i weithluoedd y sectorau gofal plant ac ysgolion. |
| i. | Mynd ati o ddifrif i annog cydweithio a gweithio mewn clystyrau ar lefel ysgolion a lleoliadau gofal plant |
| j. | Sefydlu dull cenedlaethol a chyson o fesur anghenion lleol y tu allan i'r cohortau â blaenoriaeth fel y gall dyraniadau grant gefnogi pob angen yn effeithiol. |
| k. | Sicrhau dull dibynadwy o gasglu data trwy gael pob ysgol a lleoliad gofal plant i fonitro'r swm o gapasiti ychwanegol, a gofnodir fel nifer cyfwerth ag amser llawn o staff, a maes dysgu a ddyrennir iddynt. |

**Methodoleg**

5. Cafodd y gwerthusiad o’r grantiau i ddysgwyr 3-7 oed mewn addysg gynnnar ei gyflawni law yn llaw â’r gwerthusiad o’r grantiau mewn ysgolion ar gyfer disgyblion 3-16 oed. Mae gwybodaeth fanylach ar y fethodoleg ar gael yn adran 3.

6. Cyflawnwyd adolygiad llenyddiaeth a gwaith maes, yn cynnwys cyfweliadau ansoddol un-i-un yn bennaf, dros ddau gyfnod. Roedd rhanddeiliaid addysg gynnar yn cynnwys:

   - 38 o brifathrawon / arweinwyr lleoliadau gofal plant
   - 33 o randdeiliaid eraill gan gynnwys cynrychiolwyr o bob awdurdod lleol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, a sefydliadau ymbarél gofal plant.

**Cyfyngiadau**

7. Mae canfyddiadau’r gwerthusiad hwn yn deillio o ymchwil sy’n ansoddol yn bennaf ac o’r herwydd mae meintiau samplau ar gyfer rhai ffactorau cyd-destunol yn fach. Dim ond am y grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau mae data meintiol ar gael mewn dyfnder, ac nid am leoliadau gofal plant na’r Grant Gwella Addysg £13m ar gyfer addysg gynnar mewn naill ai leoliadau gofal plant neu ysgolion.

**Beth sy’n gweithio**

8. Roedd yr adolygiad o lenyddiaeth rhyngwladol yn amlygu cryfderau cymorth sydd wedi ei dargedu at oedrannau addysg gynnar.

9. Argymhellir dull integredig system gyfan er mwyn sicrhau y gall plant gael gafael ar unrhyw ffurf o wasanaethau cymdeithasol sydd ar gael. Canfuwyd yn rhyngwladol fod gwario ar addysg gynnar a dysgwyr iau yn effeithiol wrth hyrwyddo adferiad teg.

10. Mae llenwi bylchau penodol yn natblygiad plant yn ffordd effeithiol o’u galluogi i gamu ymlaen gyda deunyddiau addas ar gyfer eu hoedran, trwy feicroaddysgu wedi ei dargedu i unigolion a grwpiau bach.

11. Ledled y byd roedd lleoliadau gofal plant ac addysg gynnar yn tueddu i gau am gyfran lai o amser nag ysgolion cynradd. Er gwaethaf hyn, fe wnaeth y

pandemig ysgogi ailfeddwl byd-eang ynghylch sut y gellid defnyddio technoleg ddigidol mewn addysg a lleoliadau gofal plant i'r dysgwyr ieuengaf. Er bod rhai heriau wrth ddefnyddio dulliau digidol, megis mynediad, mae'n haws i blant iau gael eu gadael ar ôl na dysgwyr hŷn.

12. Mae recriwtio a chadw staff yn y sector wedi bod yn broblem ers amser maith gyda COVID-19 yn golygu bod hyn yn digwydd ar raddfa fwy.

Dulliau yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig

13. Roedd Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn wynebu heriau gyda'r gweithlu gofal plant sy'n mynd yn ôl cyn COVID-19 ond daeth hyn yn amlycach fyth dros gwrs y pandemig.

- Fe wnaeth Lloegr ganolbwyntio cymorth ar ddatblygu a hyfforddi gweithluoedd, a chanllawiau i leoliadau. Roedd hyn yn cynnwys cronfeydd ychwanegol ar gyfer cymwysterau i ddenu pobl i'r sector sefydlu Canolfannau Arferion Cryf.
- Bu Gogledd Iwerddon yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd cyffredinol y sector, gan sicrhau y gallai lleoliadau gofal plant barhau ar agor er y lleihad mewn galw, ac addysgu grwpiau bach trwy'r rhaglen Engage.
- Fe wnaeth yr Alban drosoli'r cymorth a oedd ar gael eisoes ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Cafodd Cronfeydd Her Cyflawniad Ysgolion eu gweithredu'n hyblyg gyda phwyslais ar Leferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLC). Yn 2021 cafodd y Cynnig Gofal Plant ei ehangu i blant dwyflwydd oed.

**Theori Newid**

14. Mae'r Theori Newid (Adran 5) ar gyfer y rhaglenni Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a Blynyddoedd Cynnar yn cynnwys plant 3-7 oed. Mae'r Theori Newid cyffredinol yn gadarn ar lefel genedlaethol gyda chytundeb ymysg yr holl randdeiliaid fod y ddwy raglen yn adnabod yr anghenion yn gywir ac yn mynd i'r afael â hwy gyda chamau addas i gyflawni amcanion defnyddiol.

**Canfyddiadau**

Perthynas â phecynnau cymorth eraill

15. Er bod enghreifftiau o grantiau unigol yn gweithio'n dda law yn llaw â'r ddwy raglen (6.1.2) nid ydynt yn gwbl gydgysylltiedig yn y ffordd y cânt eu cyflwyno nac yn eu hamcanion ym mhrofiadau staff gofal plant ac ysgolion. Mewn lleoliadau gofal plant yn enwedig, ychydig o ddealltwriaeth yn aml sydd o grantiau'r ddwy raglen, gyda chred fod y cymorth a ddarperir wedi deillio o'r awdurdod lleol.

Dosbarthiad

16. Mae ysgolion cynradd wedi derbyn cyllid yn uniongyrchol, gyda'r symiau wedi eu penderfynu gan y meini prawf dyrannu (1.2.2). Mae lleoliadau gofal plant wedi derbyn y cyllid trwy'r awdurdod lleol, heb fawr o gysondeb ledled Cymru yn y ffordd y caiff hyn ei drosi'n gymorth yn uniongyrchol i leoliadau gofal plant. Sylwyd ar dri gwahanol ddull. Roedd rhai awdurdodau lleol yn dyrannu'r holl gyllid ar gyfer lleoliadau gofal plant yn uniongyrchol i'r lleoliadau. Mae eraill wedi mynd ati mewn ffordd fwy strategol, gan wario'r arian ar adnoddau megis hyfforddiant y gall lleoliadau ddewis ohonynt. Mae'r drydedd carfan wedi defnyddio dull cymysg gyda rhywfaint o'r cyllid yn cael ei wario'n strategol, a'r gweddill yn mynd i'r lleoliadau.

Cyngor a chymorth gan awdurdodau lleol

17. Mewn ysgolion roedd y penderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud gan yr ysgolion eu hunain. Mewn lleoliadau gofal plant roedd y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud ar lefel yr awdurdod lleol. Roedd cyngor a chymorth awdurdodau lleol yn cyfyngu mwy ar leoliadau gofal plant nag ar ysgolion, yn unol â gwariant strategol. Mewn cylchoedd diweddarach o gyllid Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, roedd nifer o awdurdodau lleol yn gallu darparu cwestiynau cyffredin i leoliadau gofal plant ar sail camau cynharach o ariannu.

Rôl partneriaid

18. Cafodd ysgolion brofiadau cymysg gyda chonsortia/partneriaethau rhanbarthol. Roedd rhai Consortia Rhanbarthol a phartneriaethau addysg yn

cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol, ysgolion, a gofal plant, ac yn gallu hwyluso rhannu syniadau a'r arferion gorau. Roedd eraill yn ei chael yn anodd cael cefnogaeth gan gonsortia rhanbarthol / partneriaethau, yn enwedig gyda chyllid munud olaf y Grant Gwella Addysg. Mae'n debygol fod cyfle wedi cael ei golli i Gonsortia Rhanbarthol a phartneriaethau ychwanegu gwerth a chynyddu effeithiolrwydd y grantiau.

19. Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru a Plant yng Nghymru wedi cyflwyno canllawiau ar sut i ddefnyddio'r cyllid yn wyneb COVID-19. Mae rhai enghreifftiau wedi bod o sefydliadau ambarél blynyddoedd cynnar yn ymwneud yn gynnar ag awdurdodau lleol a Chonstortia Rhanbarthol/partneriaethau, a thrwy hynny helpu gyda chynllunio a chyflwyno. Roedd partneriaid yn feirniadol o'r amser a gymerwyd rhwng cyhoeddi cyllid a'i gyflwyno, gan bwysleisio anawsterau recriwtio staff mewn ffrâm amser byr.

<u>Sut y cafodd cyllid ei ddefnyddio</u>

20. Ar gyfartaledd, mae ysgolion wedi ennill yr hyn sydd gyfwerth ag un aelod llawn-amser o staff cymorth, a hanner yr hyn sydd gyfwerth ag athro llawn-amser (6.5.1).[2]

21. Mae ysgolion a lleoliadau gofal plant wedi defnyddio'r cyllid i gynyddu'r oriau a weithir gan staff presennol ar gontractau rhan-amser. O ran gofal plant mae hyn yn amlach wedi bod ar sail ad hoc trwy oramser yn hytrach nag ymestyn contractau. Mae'r ymyraethau mwyaf cyffredin gan Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau mewn ysgolion wedi bod ar gyfer llythrennedd a llesiant, yn aml yn cael eu cyflwyno mewn cyfnod byr o amser (ee dros un tymor).

22. Lle bo lleoliadau gofal plant wedi derbyn cyllid yn uniongyrchol mae'r grantiau wedi talu am staff yn gyffredinol, ac offer i gefnogi dysgu penodol (ee deunyddiau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu). Lle bo awdurdodau lleol wedi defnyddio'r grantiau'n strategol, mae wedi talu am ddarparwyr allanol (megis grwpiau drama neu sesiynau dysgu awyr agored) y gall lleoliadau gofal plant fanteisio arnynt. Mae hyfforddiant hefyd wedi bod ar gael ond roedd lleoliadau gofal plant yn codi pryderon nad oedd fawr o gyfle i roi hyn

[2] Daw'r ffigur hwn o ddata monitro sy'n cynnwys ysgolion sydd â dysgwyr hŷn na'r 3-7 oed.

ar waith cyn i'r sesiynau hyfforddiant nesaf gychwyn. Mae hyfforddiant a gwblhawyd y tu allan i oriau ysgol hefyd wedi bod yn broblem. Gydag amserlen fyrrach y Grant Gwella Addysg o gymharu â Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, mae risg bod y grant wedi cael ei ddefnyddio ar adnoddau sydd ar gael yn rhwydd yn hytrach na'i dargedu lleol lle gallai gyflawni'r mwyaf o effaith.

23. Mae wedi bod yn anodd cefnogi cymarebau staff-dysgwr trwy gyflogi staff ychwanegol gan fod pobl yn aml yn brin o'r cymwysterau angenrheidiol i fodloni gofynion cymarebau. Mewn rhai achosion, mae staff heb gymwysterau a gafodd eu cyflogi wedi dilyn yr hyfforddiant angenrheidiol ac mae hyn wedi cymryd amser i'w gwblhau.

Gwneud penderfyniadau

24. I ysgolion, a lleoliadau gofal plant a oedd yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain, y brif elfen oedd eu gwybodaeth eu hunain o anghenion eu plant. Y graddau y mae staff a all ddiwallu'r anghenion hyn ar gael fu'r prif ffactor yn y ffurf o gymorth ychwanegol a ddarparwyd.

25. Cyfyngedig fu'r cydweithio ar lefel ysgolion a lleoliadau gofal plant. Mae rhai awdurdodau lleol wedi rhoi arweiniad pan ddaw'n fater o gydgysylltu a chynllunio gyda phrifathrawon a Chonsortia Rhanbarthol/partneriaethau, er i randdeiliaid awdurdodau lleol fynegi rhwystredigaeth gyda'r dull 'munud olaf' o gydgysylltu, yn enwedig gyda Chonsortia Rhanbarthol/partneriaethau. Mae sefydliadau ambarél wedi gallu darparu llawer mwy o gymorth o fewn lleoliadau gofal plant, gyda'r cydweithio strategol hwn yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru.

Galluogwyr a rhwystrau rhag capasiti ychwanegol

26. Y galluogwyr allweddol yw'r cyfle am dâl ychwanegol ar gael i staff profiadol sy'n gweithio oriau ychwanegol, ac sydd eisoes â pherthynas gyda phlant a staff eraill. Mae ysgolion cynradd wedi gallu defnyddio'r grantiau i gadw athrawon newydd gymhwyso y tu hwnt i gyfnodau eu lleoliad.

27. Mae rhwystrau rhag capasiti ychwanegol yn cynnwys:

- Cystadleuaeth o du sectorau eraill sy'n talu'n well neu'n cynnig mwy o hyblygrwydd, gyda llai o ofynion o ran cymwysterau.
- Y gallu i gynnig contractau tymor byr yn unig pan delir amdanynt gan y grantiau.
- Gall yr amser mae'n ei gymryd i gwblhau'r broses o drefnu cyflogi weithiau fod yn hirach na'r ffenest sydd ar gael i wario'r grant.
- Niferoedd staff gofal plant presennol yn lleihau yn sgil cael eu llethu gan eu llwyth gwaith ers mis Mawrth 2020.
- Nifer cyfyngedig o staff ar gael sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae gan leoliadau gofal plant ac ysgolion sy'n bellach i ffwrdd oddi wrth ganolfannau trefol boblogaethau llai i recriwtio ohonynt, a symiau llai o grant gan eu bod yn tueddu i fod yn llai eu maint.
- Absenoldebau staff yn parhau yn sgil COVID-19.

<u>Effaith</u>

28. Diben craidd y grantiau oedd galluogi lleoliadau gofal plant ac ysgolion ddiwallu anghenion dysgwyr 3-7 oed trwy ddarparu adnoddau dynol, hyfforddiant, ac (ar gyfer lleoliadau gofal plant) adnoddau deunyddiau.

29. Cafodd y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau ei chyflwyno mewn ffordd sy'n cyfateb yn fras ag angen sydd wedi ei adnabod yn lleol a chohortau blaenoriaeth cenedlaethol. Mae adroddiadau helaeth gan staff o lefelau is na'r disgwyl o Leferydd, Iaith a Chyfathrebu, mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant, ar gyfer lleoliadau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Amlygwyd y ddwy raglen, Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a'r Blynyddoedd Cynnar, gan leoliadau gofal plant ac ysgolion am eu rôl bwysig wrth fynd i'r afael â phroblemau Lleferydd, Iaith a Llythrennedd.

30. Cefnogi llesiant oedd y dull mwyaf effeithiol. Mae'r pwyslais hwn wedi bod yn elfen ganolog o bob maes o ddysgu i gynyddu brwdfrydedd a galluogi datblygiad plant mewn addysg gynnar.

31. Yr arferion gorau wrth gynyddu effaith y cyllid yw recriwtio staff sydd â nod clir o alluogi cynyddu capasiti.

Canllawiau a chydymffurfiaeth

32. Mae ysgolion cynradd ac awdurdodau lleol o'r farn fod y canllawiau gan Lywodraeth Cymru o safon uchel iawn. Yr hyn mae rhanddeiliaid yn ei werthfawrogi'n arbennig yw'r graddau uchel canfyddedig o hyblygrwydd a ganiateir wrth adnabod anghenion lleol a'r strategaethau a ddefnyddir gan ysgolion ac awdurdodau lleol i'w diwallu.

**Y dyfodol**

33. Mae'n hanfodol deall y bydd effeithiau Covid-19 ar ddysgwyr, ac ysgolion, yn parhau yn yr hirdymor. Bydd y profiad o darfu ar addysg yn parhau gyda phlant, a bydd y gweithlu yn wynebu tarfu parhaus gan absenoldebau Covid-19.

34. Mae'r cynnydd mewn capasiti staff yn sgil y ddwy raglen yn gyfan gwbl ddibynnol ar y cyllid grant. Bydd y cynnydd mewn capasiti yn dod i ben pan ddaw'r rhaglen i ben. Nid oes cynllun ar hyn o bryd ymysg ysgolion sy'n ymestyn y tu hwnt i'r grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau.

Awduron yr Adroddiad: Geof Andrews, Tom Bajjada, Joseff Howells, Kerry KilBride, Dr Nick Morgan, Maya Richardson, Carly Wise / Miller Research, Heledd Bebb, Nia Bryer / OB3 Meurig Roberts

Adroddiad Ymchwil Llawn: Andrews, G; Bajjada, T; Howells, J; KilBride, K; Morgan, N; Richardson, M; Wise, C; Bebb, H; Bryer, N; Roberts, M; (2023*). Gwerthusiad o'r Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau ac o Raglen y Blynyddoedd Cynnar Adroddiad Terfynmol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR rhif adroddiad 50/2023.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusor-rhaglen-recriwtio-adfer-chodi-safonau

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â'r:
Gangen Ymchwil Ysgolion
Adran Ymchwil a Gwybodaeth Gymdeithasol
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

E-bost: YmchwilYsgolion@Llyw.Cymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-870-1